**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

08 Hydref 2021

Annwyl Weinidog,

Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU, Gwlad yr Ia, Liechtenstein a Norwy

Fel rhan o'n gwaith craffu ar gytundebau masnach rhyngwladol, trafododd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU, Gwlad yr Ia, Liechtenstein a Norwy ar 30 Medi. Hoffai'r Aelodau gael rhagor o wybodaeth am y Cytundeb. Yn benodol, a allwch roi manylion am yr hyn a ganlyn:

- Unrhyw asesiad gan Lywodraeth Cymru – gan gynnwys unrhyw asesiad macroeconomaidd – o'r Cytundeb a'i effaith bosibl ar Gymru yn gysylltiedig â'r Cytundeb ar Fasnachu Nwyddau rhwng y DU, Gwlad yr Ia a Norwy ac yn gysylltiedig â pherthynas y DU o ran masnachu â Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein cyn i'r cyfnod pontio ddod i ben;
- Unrhyw sylwadau penodol a wnaed gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU yn ystod y trafodaethau gan gynnwys, os yw'n berthnasol, a aethpwyd i'r afael â'r sylwadau hyn yn y Cytundeb terfynol ai peidio;
- Unrhyw ddeddfwriaeth a allai fod yn ofynnol i weithredu'r Cytundeb, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd?

Mae Pennod 12 y Cytundeb yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â chydnabod cymwysterau proffesiynol ac mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU yn dyfynnu'r Bil Cymwysterau Proffesiynol yn benodol fel cyfrwng posibl ar gyfer hyn. Fel y byddwch yn ymwybodol, craffodd y Pwyllgor yn ddiweddar ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cymwysterau Proffesiynol a gosodwyd ei adroddiad ar 28 Medi. Bydd yn awyddus i ddilyn y rhyngweithio rhwng y Cytundeb hwn a'r Bil hwnnw os caiff ei basio.

Gan fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd.

Cofion gorau,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.